52 Er fy ngwaith cychwynnol fel rhan o gam 1, mae’r Ymddiriedolaeth wedi datblygu ei Chynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) ar gyfer 2021-2024 ac mae yn y broses o’i gyflawni. Fodd bynnag, mae pwysau ar wasanaethau ambiwlans yn arwain at angen i flaenoriaethu rhai agweddau ar elfen eleni o’r cynllun, gan olygu y gallai fod oedi tan y flwyddyn nesaf gydag agweddau eraill.

53 Yn ystod cyfnod cynnar y pandemig, cafodd rhai o’r trefniadau rheolaidd i fonitro a thracio cynnydd o ran cyflawni cynlluniau, megis y Bwrdd Trawsnewid Strategol, eu hatal dros dro. Pan gyhoeddais adroddiad ar waith cam 1, fe ddechreuodd yr Ymddiriedolaeth gryfhau’r trefniadau hynny eto, gyda chynlluniau i’w hatgyfnerthu’n cael eu hategu gan Swyddfa Cefnogi Trawsnewid, ac ym mis Medi 2021 fe ddiwygiodd Gylch Gorchwyl y Bwrdd Trawsnewid Strategol i wneud rolau ac atebolrwydd yn fwy eglur. Bellach, adroddir ar gynnydd wrth y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad mewn Offeryn Tracio ac Adroddiad Sicrwydd Cyflawni mewn perthynas â’r CTCI.

## Trefniadau llywodraethu

54 Fe wnaeth fy ngwaith ystyried gallu’r Ymddiriedolaeth i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn gan hefyd orfod ymateb i’r heriau digynsail a gyflwynwyd gan y pandemig. Mae ffocws allweddol y gwaith wedi bod ar y trefniadau corfforaethol ar gyfer sicrhau bod adnoddau’n cael eu defnyddio’n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Fe wnaethom hefyd ystyried sut y cafodd busnes a ohiriwyd yn 2020 ei adfer a sut y mae gwersi a ddysgwyd o’r pandemig yn llunio trefniadau yn y dyfodol ar gyfer sicrhau llywodraethu ac adferiad da ar sail barhaus.

55 Canfûm fod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i wella trefniadau llywodraethu a rheoli risg. Fodd bynnag, mae ffactorau mewnol ac allanol yn rhoi gwasanaethau dan bwysau difrifol, sy’n achosi risgiau i ddiogelwch cleifion ac i gyflawni cynlluniau y cytunwyd arnynt ar gyfer trawsnewid gwasanaethau.

56 Canfu fy ngwaith fod yr Ymddiriedolaeth, ar y cyfan, wedi parhau i weithredu ei threfniadau llywodraethu’n briodol, gyda’r Bwrdd a’i bwyllgorau’n ateb eu gofynion. Mae ystod o weithgareddau’n helpu’r Ymddiriedolaeth i fireinio a gwella trefniadau ymhellach, gan gynnwys defnyddio rhaglen hunanasesu pwyllgorau a datblygu’r bwrdd. Mae’r Ymddiriedolaeth hefyd yn cymryd camau pellach i gryfhau ei threfniadau rheoli risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

57 Er bod y trefniadau llywodraethu’n parhau i ddatblygu a chael eu mireinio, mae’r Ymddiriedolaeth yn ei chael ei hun mewn sefyllfa lle mae pwysau eithafol ar wasanaethau. Mae lefelau uchel o alw, gan gynnwys galw cynyddol am alwadau ‘coch’, yn bodoli ar y cyd â phwysau cynyddol mewn lleoliadau ehangach o ran ysbytai a lleoliadau gofal cymdeithasol, sy’n effeithio ar lif cleifion mewn ysbytai ac yn arwain at oedi maith cyn trosglwyddo. Mae’r pwysau allanol hyn ochr yn ochr â heriau mewnol mewn perthynas ag absenoldeb staff oherwydd salwch, cynllunio capasiti ac arferion gweithio cyfredol yn creu risgiau uwch y bydd defnyddwyr gwasanaethau’n cael niwed.

## Rheoli adnoddau ariannol

58 Fe ystyriais berfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth, ei rheolaethau ariannol a threfniadau ar gyfer monitro perfformiad ariannol ac adrodd arno. Canfûm fod yr Ymddiriedolaeth yn dal i gyflawni ei dyletswyddau ariannol a bod ganddi drefniadau priodol i fonitro'i sefyllfa ariannol ac adrodd arni.

59 Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth ei dyletswyddau ariannol ar gyfer 2020-21 ac er ei bod yn nodi ei bod ar y trywydd iawn i fantoli'r cyfrifon yn 2021-22, bydd angen iddi fynd ati'n fanwl i fonitro'r modd y cyflawnir cynlluniau arbedion. Fe gyflawnodd yr Ymddiriedolaeth warged bach o £0.07 miliwn yn 2020-21 yn erbyn gwariant gweithredol o £241.8 miliwn. Cyflawnodd arbedion o £4.3 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol honno a chafodd y costau COVID-19 o £13.8 miliwn eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.

60 Ar gyfer y flwyddyn gyfredol, mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld sefyllfa fantoledig rhwng refeniw a gwariant. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i dybio y bydd costau COVID-19 eleni eto'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ac mae mewn deialog reolaidd ynghylch y sefyllfa a'r rhagolygon ariannol diweddaraf. Mae'r perfformiad o ran arbedion yn y flwyddyn hyd yma'n mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau ar hyn o bryd, ond bydd angen cynnal ffocws ar hyn am weddill y flwyddyn.

Canfûm hefyd fod gan yr Ymddiriedolaeth reolaethau ariannol effeithiol, trefniadau addas ar gyfer atal a chanfod twyll, a phrosesau gwell ar gyfer cymeradwyo gwariant sy'n gysylltiedig â COVID-19.

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2021 yn nodi’r ffi archwilio arfaethedig a fyddai’n cael ei chadarnhau oherwydd trafodaethau a oedd yn mynd rhagddynt ynglŷn ag archwilio cyfrifon y Cronfeydd Elusennol. Cytunwyd â’r Ymddiriedolwyr ar archwiliad annibynnol o gyfrifon y cronfeydd elusennol, felly mae’r ffi ar y cyfan yn gyson â ffi’r flwyddyn flaenorol, sef £151,618, (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o’r ffi wirioneddol yn gyson â’r ffi hon.

| **Risg archwilio** | **Ymateb archwilio arfaethedig** | **Gwaith a wnaed a'r canlyniad** |
|---|---|---|
| Mae safonau archwilio perthnasol yn ei gwneud yn ofynnol i archwilwyr fod yn bresennol a dilysu balansau stociau diwedd blwyddyn lle ystyrir bod y balansau hyn yn berthnasol i'r datganiadau ariannol.<br>Oherwydd effaith pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau symud statudol, ni fyddwn yn gallu arsylwi ar rannau o waith yr Ymddiriedolaeth i gyfrif ei rhestrau eiddo ac ailgyflawni'r cyfrifiadau hynny ar 31 Mawrth 2021.<br>Oni bai fy mod yn gallu cael y sicrwydd archwilio gofynnol trwy ddulliau eraill, byddwn felly'n methu â phennu a yw balans rhestrau eiddo diwedd blwyddyn yr Ymddiriedolaeth yn berthnasol gywir a theg, h.y. byddai angen i mi amodi fy marn. | Byddwn yn asesu balansau stociau diwedd blwyddyn yr Ymddiriedolaeth, yn enwedig o safbwynt perthnasedd.<br>Os bydd angen i ni amodi ein barn, mae'n bwysig pwysleisio na fyddai'r amodiad yn digwydd o ganlyniad i ddiffygion yn systemau neu gamau gweithredu'r Ymddiriedolaeth, ond yn hytrach o ganlyniad i effaith COVID-19 ar un o'n gweithdrefnau archwilio allweddol. | Fe wnaed y gwaith fel a fwriadwyd.<br>Roedd gwerthoedd stociau diwedd blwyddyn yr Ymddiriedolaeth islaw'r lefel perthnasedd a bennwyd ar y datganiadau ariannol.<br>Fe wnaethom adnabod rhai materion o ran y ddogfennaeth a'r papurau gwaith a oedd yn ategu'r gwerthoedd yn y datganiadau ariannol ac fe wnaethom adrodd ar y rhain yn ein hadroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| Fe nodais yn fy Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon ar gyfer 2019-20 fod gennyf bryderon ynghylch y lefel o Asedau Sydd Wrthi’n Cael Eu Hadeiladu (AUC) a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill 2019 a oedd wedi aros fel AUC ar 31 Mawrth 2020.<br>Fe gyhoeddom ni argymhelliad yn ein Cynllun Gweithredu Terfynol ar gyfer y Cyfrifon ynghylch monitro a chofnodi gwariant o’r fath i sicrhau bod asedau’n cael eu gweithredoli cyn gynted â phosibl a bod y risg o ddarfodiad yn cael ei lleihau i’r eithaf. | Rydym wedi cytuno ar ddull a gynlluniwyd gyda swyddogion o ran sut y bydd dogfennaeth ategol a thystiolaeth yn cael eu darparu gan yr Ymddiriedolaeth i ategu’r balansau AUC diwedd blwyddyn.<br>Byddwn yn adolygu’r dystiolaeth archwilio a ddarparwyd i gael sicrwydd ynghylch y gwariant a ddosbarthwyd fel AUC ar 31 Mawrth 2021. | Fe wnaed y gwaith fel a fwriadwyd.<br>Fe wnaethom adnabod rhai materion ynghylch y ddogfennaeth a ddarparwyd i’w harchwilio i ategu croniadau cyfalaf a hefyd anawsterau o ran adnabod bodolaeth a lleoliad rhai diffibrilwyr a gedwir ar y gofrestr asedau sefydlog. Fe hysbyson ni ynghylch y materion hyn yn ein hadroddiad ar yr Archwiliad o’r Cyfrifon. |

